# Canolfan Addysg Y Bont

## Ein Cwricwlwm




| I ddysgu | I ofalu | Y cyfle i lwyddo |
|---|---|---|
|  |  |  |
| To learn | To care | The opportunity to succee |

# Canolfan Addysg Y Bont

Mae Canolfan Addysg y Bont yn ysgol ddyddiol arbennig, yn arbenigo yng ngofal, addysg a lles dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed. Rydym yn ysgol arbenigol i blant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys, anawsterau dysgu dwfn a lluosog, anghenion cymhleth ac awtistiaeth. Fel cymuned ysgol, rydym yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu, mae gennym amrediad o arbenigedd trwy'r ysgol gan ein hathrawon medrus iawn, Cynorthwywyr Addysgu Dysgu Uwch a Chynorthwywyr Cefnogol i amrywiol dimau ac arweinyddion.

Ein nod yng Nghanolfan Addysg y Bont yw cynorthwyo'n disgyblion i:

- Ddod mor annibynnol ag sy'n bosibl iddynt fod.
- Annog hyder, datblygu hunan-werth er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial.
- Bod yn aelod gweithredol a gwerthfawr o'u cymuned ysgol a'r byd ehangach.
- Darparu amgylchedd diogel a meithringar lle mae disgyblion yn gallu mwynhau a gwneud cynnydd yn eu dysgu.
- Sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr lais a bod cyfleoedd yn cael eu rhoi i fynegi a datblygu'u syniadau.
- Paratoi disgyblion i drosi yn llwyddiannus gan ddatblygu o un cam i'r llall.
- Meithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd, asiantaethau allanol a'r gymuned ehangach i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl trwy gydol eu taith addysgol ac yn y dyfodol.


Mae Canolfan Addysg y Bont o fewn pellter cerdded i Dref Llangefni sydd wedi'i hamgylchynu gan Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.  Mae hyn yn cynnig cyfleoedd ardderchog i wella'r ddarpariaeth o fewn CAYB , trwy gynnig profiadau bywyd go iawn a'r cyfle i ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

.

## Ein gweledigaeth

Mae’r ysgol yn anelu at ddarparu’r addysg orau a fwyaf perthnasol i ddiwallu anghenion pob disgybl yn unol â’u hoedran, gallu a diddordebau mewn lleoliad dwyieithog sy’n parchu eu barn, dymuniadau a dyheadau mewn amgylchedd diogel.
Rydym hefyd yn cydnabod fod hyblygrwydd sy’n caniatau i ddysgwyr pontio rhwng y llwybrau dysgu, lle’n berthnasol.

### *I ddysgu*



Mae’r staff yng Nghanolfan Addysg Y Bont yn adnabod anghenion disgyblion yn dda iawn ac yn gweithio’n gyson i baratoi rhaglenni addas i sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol i bob unigolyn.

### *I ofalu*



Mae’r Bont yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae trefniadau effeithiol iawn ar gyfer hyrwyddo ffordd iach o fyw a llesiant disgyblion. Mae gofal a chymorth  personol o’r safon uchaf.

### *Y cyfle i lwyddo*



Mae’r ysgol yn gynhwysol ac yn parchu amrywiaeth ac mae’n galluogi pawb yn yr ysgol i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae’r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau ansawdd addysg a chyfleoedd i’r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr.

# Beth ydy Cwricwlwm yr Ysgol?

Mae cwricwlwm Canolfan Addysg Y Bont wedi eu seilio ar dri llwybr dysgu ar hyn o bryd Anffurfiol, Lled-ffurfiol a Ffurfiol. Mae disgyblion yn dilyn llwybr dysgu sy'n seiliedig ar eu hanghenion dysgu unigol. Mae pob llwybr yn wahanol, gan ganiatáu i ddisgyblion wneud cynnydd a datblygu ar eu cyflymder unigol eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen hyblygrwydd, gan ganiatáu felly i ddisgyblion symud rhwng y llwybrau, pan fo'n briodol.

I ddysgu | I ofalu | Y cyfle i lwyddo




To learn | To care | The opportunity to succe



Mae disgyblion ag anghenion Dwys a Lluosog yn dilyn y Llwybr Anffurfiol. Mae'n disgyblion yn CAYB yn derbyn profiadau sensori sy'n datblygu eu hymgysylltiad ac yn sicrhau pob cyfle i gyrraedd lefel uchaf o annibyniaeth.

Mae'n cwricwlwm Lled-Ffurfiol wedi cael ei gynllunio ar gyfer ein disgyblion ag anawsterau dysgu dwys. Rhoddir profiadau a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau, cyfathrebu, llesiant emosiynol ac annibyniaeth. Rydym yn teimlo bod disgyblion yn dysgu orau pan fydd dysgu yn deillio o'u profiadau perthnasol, unigol.






Mae disgyblion sy'n dilyn y llwybr dysgu Ffurfiol yn cael mynediad I gwricwlwm mwy strwythuredig ac academaidd eu natur. Bydd disgyblion ar y llwybr hwn yn dechrau dangos cynnydd o fewn Camau Cynnydd ,Meysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm newydd I Gymru. Mae defnydd o fframweithiau statudol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael eu hatgyfnerthu trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau bywyd go iawn.

| Ein Gwerthoedd | Ein Hymddygiad |
|---|---|
| **Llesiant a Gofal** | Rydym yn dangos empathi, a gofal tuag at ein dysgwyr, eu teuluoedd a chymuned yr ysgol gyfan mewn amgylchedd diogel a meithringar, lle mae lleisiau pawb yn cael eu clywed ac mae'r dysgwr yn ganolbwynt. |
| **Cynhwysol/Cynwysoldeb** | Mae ein dull plentyn ganolog o weithio yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfleoedd cyfartal i lwyddo yn eu ffordd unigryw eu hunain. |
| **Creadigrwydd** | Mae'n dysgwyr yn cael eu hannog a'u grymuso i fod yn greadigol, arloesol ac entrepreneuraidd ym mhob agwedd o'u haddysg. |
| **Gwytnwch a Hyder** | Mae pawb yn cael eu hannog i deimlo'n falch o'u hunain a chael yr hyder i wynebu heriau er mwyn cyrraedd a chyflawni eu dyheadau. |
| **Hapusrwydd a Mwynhad** | Rydym yn cefnogi ein gilydd gan sicrhau bod dysgu yn hwyl ac yn cymell ein disgyblion mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo twf ein holl ddysgwyr a chymuned yr ysgol |
| **Annibyniaeth** | Mae annibyniaeth yn greiddiol i'r dysgu, rhoddir cyfleoedd i bob dysgwr ddatblygu eu diddordebau a'u hoffterau personol wrth baratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. |
| **Cymru a'n Cymuned** | Rydym yn manteisio ar ein cymuned leol ac ehangach gan ddiogelu ein hamgylcheddau a'n cynefinoedd.<br><br>Rydym yn dathlu Cymreictod a diwylliannau eraill trwy Gwricwlwm eang ac amrywiol |
| **Cydberthynas** | Rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd o fewn ein dosbarthiadau a chymuned ehangach yr ysgol i hyrwyddo amgylchedd gofalgar, parchus a chynorthwyol. |

## 4 Diben y Cwricwlwm i Gymru




Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddod yn:

- **Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- **Cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- **Dinasyddion moesegol, gwybodus** sy'n barod i gymryd rhan yng Nghymru a'r byd
- **Unigolion iach, hyderus** sy'n barod i arwain bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

## 4 Diben y Cwricwlwm i Ganolfan Addysg Y Bont

Yn sgil datblygiadau diwygio'r Cwricwlwm i Gymru, rydym wedi addasu Pedwar Diben y Cwricwlwm newydd a'u personoli ar gyfer ein llwybrau dysgu yma yng Nghanolfan Addysg y Bont. Dewch i gyfarod â'r pedair draig gyfeillgar, sy'n cynrychioli'r Pedwar Diben.



# Y 12 Egwyddor Addysgegol

Yma yng Nghanolfan Addysg y Bont mae ein cwricwlwm wedi'i gynllunio o fewn tri llwybr dysgu. Mae'n gwricwlwm sy'n cael ei ategu gan y 12 egwyddor addysgegol. Mae'r tri llwybr dysgu yn galluogi athrawon a'u timoedd i ystyried y pam, y sut, yn ogystal â'r beth, er mwyn i ni allu datbygu dealltwriaeth gadarn o addysgu a dysgu da gan geisio gwireddu Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr. Rhoddir sylw i brosesau myfyrio ac asesu trwy gydol y flwyddyn ysgol a chyfleoedd i staff yr ysgol gyfan fesur ac adfyfyrio ar effeithiolrwydd eu darpariaeth yn ogystal a'n haddysgeg. O ganlyniad, mae hyn yn ein caniatáu fel cymuned ysgol i barhau i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu, gan ymgymryd â dysgu proffesiynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Creu cyd-destunau dilys. | Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a dablygu fel dysgwyr anibynnol. | Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol. | Hybu cydweithio. |
| Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus. Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy. | Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu. | Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol ar gallu i feddwl yn feirniadol. | Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb. |
| Canolbwyntio ar wireddu'r 4 Diben. | Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol. | Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu. | Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd- Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol. |

# Cynllunio

Mae CAYB yn darparu cwricwlwm personol, eang, cytbwys a pherthnasol i'r holl ddigyblion yn yr ysgol beth bynnag yw eu hanghenion, oedran a datblygiad. Mae ein disgyblion yn cael cyfleoedd i ymarfer, cyffredinoli a chymhwyso'u sgiliau a'u gwybodaeth trwy brofiadau amrywiol naill ai yn yr ysgol neu yn y gymuned ehangach. Ein cwricwlwm yw'r holl brofiadau a gynigiwn i'n disgyblion yn yr ysgol yn ogystal ag yn y gymuned ehangach.  Mae gennym ddisgyblion o bob gallu yng Nghanolfan Addysg y Bont ac mwyn diwallu anghenion ein holl ddisgyblion, rydym wedi datblygu 3 llwybr gwahanol. Mae bob llwybr yn wahanol ac wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion.  Mae cwricwlwm yr holl ddisgyblion yn cael eu seilio ar eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) sef eu dyheadau a'u Deilliannau.

Yng Nghanolfan Addysg Y Bont rydym yn darparu rhaglenni gwaith wedi eu personoli ar gyfer ein dysgwyr. Mae'r rhaglenni gwaith hyn yn cael eu datblygu'n unol â'n hasesiadau sylfaenol a bydd y rhain yn digwydd yn ddyddiol. Mae pwyslais yn cael ei roi ar gynnig yr amser a'r cyfleoedd i ddysgwyr gaffael, ymarfer a chymhwyso'u gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwreiddio eu dysgu. Mae hyn yn creu sylfaen gadarn ar gyfer camau nesaf yn eu dysgu, gan adeiladu ar eu profiadau a'u cynnydd.  Mae'r sgiliau a phrofiadau hyn yn drosglwyddadwy i'r byd gwaith, gan alluogi ein dysgwyr i addasu a dod mor annibynnol â phosibl yn y byd cyfoes.

Bydd ein dysgwyr hefyd yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a diddordebau personol trwy weithgareddau thematig ac achrediadau amrywiol. Mae ein disgyblion sy'n dilyn y llwybr dysgu Lled-Ffurfiol a Ffurfiol yn chwarae rôl allweddol yn y cynllunio o weithgareddau thematig. Mae profiadau bywyd cyfoethog, eang a dwfn yn cael eu darparu trwy weithgareddau dysgu awyr agored, ymweliadau tu hwnt i'r ysgol, ymwelwyr â'r ysgol, cydweithio ag Addysg Bellach a chydweithio gydag ysgolion prif lif.

Mae'n ein hachrechiadau a gwobrau yn yr Adran Uwchradd yn sicrhau ehangder o brofiadau i'n dysgwyr gan ddarparu dull holistig tuag at ddatblygu eu sgìliau annibynnol mewn paratoad ar gyfer bywyd fel oedolyn.

# Anffurfiol


Rydym yn cydnabod yng Nghanolfan Addysg y Bont bod gan yr holl ddisgyblion yr hawl i addysg sy'n addas ar gyfer diwallu eu hangenion unigol. Nid yw disgyblion sy'n dilyn y llwybr anffurfiol yn dysgu yn benodol i bwnc. Mae ein disgyblion yn dilyn cwricwlwm pwrpasol ac wedi'i deilwra lle y gallant ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain. Ein nod yw darparu cwricwlwm plentyn gan-olog sy'n seiliedig ar anghenion, diddordebau a dyheadau pob unigolyn. Rydym yn canolbwyntio ar gyfathrebu a sgiliau rhyngweithio cymdeithasol dysgwyr, datblygiad gwybyddol cynnar a'u rhyngweithio â'u hamgylchedd drwy brofiadau megis therapïau a ymyraethau amrywiol. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i roi pob cyfle i ddisgyblion ddatblygu sgiliau bywyd wrth baratoi ar gyfer eu dyfodol a bywyd fel oedolion. Mae pob elfen orfodol o Gwricwlwm i Gymru yn ogystal a'u deilliannau Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn sicrhau bob cyfle i wireddu'r Pedwar Diben.



Mae staff yn gweithio'n agos â'r holl therapyddion ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â disgyblion unigol ac mae'r dull amlddisgyblaethol yma o weithio yn sicrhau addysg holistig sy'n diwallu anghenion ein disgyblion.









# Lled-ffurfiol



Mae disgyblion sy'n dilyn y llwybr dysgu Lled-Ffurfiol yn gweithio'n is na'r disgwyliedig o ran eu hoedran ym mhob agwedd o'u datblygiad. Mae gan ein dysgwyr sy'n dilyn y llwybr hwn amrediad eang o anghenion ac felly mae dosbarthiadau yn amrywio o ran y darpariaeth yn ogystal â'r profiadau. Mae pob elfen orfodol o Gwricwlwm i Gymru yn ogystal a'u deilliannau Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn sicrhau bob cyfle i wireddu'r Pedwar Diben.


Mae disgyblion ag anghenion dysgu dwys yn dal i 'ddysgu sut i ddysgu' yma yng Nghanolfan Addysg y Bont, rhoddir pob cyfle i bob disgybl i ddatblygu eu sgiliau bywyd, annibynnol wrth baratoi ar gyfer bywyd fel oedolion. Mae hyn yn cynnwys sgiliau byd gwaith, gallu byw mor annibynnol â phosib a bod yn aelodau o'u cymuned leol. Gwneir pob ymdrech i ymgorffori diddordebau, dyheadau ac anghenion y dysgwyr fel y nodir yn eu Deilliannau CDU. Rydym yn adolygu a myfyrio ar ein darpariaeth yn rheolaidd, gan ofyn y canlynol:




1. Pam ein bod yn addysgu'r hyn rydym yn ei addysgu?

2. Beth allwn ni ddisgwyl i'n dysgwyr allu cyflawni erbyn oedran ymadael â'r ysgol?

3. Sut y gallai ein cwricwlwm alluogi hyn?







# Ffurfiol



Mae disgyblion sy'n dilyn y llwybr dysgu Ffurfiol yn cael mynediad i ddull fwy strwythuredig o ran eu dysgu, a chaffael sgiliau annibynnol yn parhau'n brif flaenoriaeth. Bydd disgyblion ar y llwybr hwn yn dechrau dangos cynnydd o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm Newydd i Gymru. Mae pob elfen orfodol o Gwricwlwm i Gymru yn ogystal a'u deilliannau Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn sicrhau bob cyfle i wireddu'r Pedwar Diben. Mae pwyslais yn cael ei roi ar fframweithiau sgiliau statudol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol sy'n cael eu hatgyfnerthu drwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau bywyd go iawn. Bydd disgyblion yn y Adran Uwchradd yn dilyn llwybrau achredu trwy gymwysterau sydd wedi eu cydnabod yn Genedlaethol. Mae cyfleoedd o fewn y llwybr dysgu hwn i brofi gweithgareddau sy'n cwmpasu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiadau'r Cwricwlwm Newydd i Gymru.







## Iechyd a Llesiant

Yng Nghanolfan Addysg Y Bont rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo iechyd meddwl a llesiant ein cymuned ysgol.

Rydym yn cefnogi anghenion lles ein holl ddysgwyr i sicrhau eu bod yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel, hapus a hyderus i gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae iechyd a lles yn greiddiol i Ganolfan Addysg Y Bont. Mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddatblygu unigolion iach a chryf gydag agwedd positif tuag at dysgu, o fewn amgylchedd gofalgar a meithringar.

Mae holl aelodau y gymuned ysgol yn chwarae rôl hanfodol mewn hyrwyddo ethos cadarnhaol sy'n annog dysgwyr i ffynnu, gwneud cynnydd a datblygu eu sgiliau a'u cryfderau wrth baratoi tuag at fywyd fel oedolion.

Rydym yn grymuso disgyblion i ymrwymo i, a buddsoddi yn eu dysgu trwy ddefnyddio ein cymeriadau Pŵerau Dysgu; Dewi Dyfalbarhau, Carys Canolbwyntio, Cairo Cydweithio a Mia Mwynhau.

Rydym yn cefnogi ein dysgwyr trwy amrywiol raglenni amrywiol megis; Elsa, Seasons for Growth a Ysgol Iach. Rydym ar hyn o bryd yn gwreiddio'r fframwaith Emosiynol a Iechyd Meddwl a Llesiant statudol sydd yn sicrhau bod Lles yn parhau'n flaenoriaeth ar draws yr ysgol.

## Teuluoedd a Chymuned

Mae cydweithio â'n rhieni/ gofalwyr a'n cymuned ysgol yn hollbwysig i ni yng Nghanolfan Addysg Y Bont. Rydym yn darparu cyfleoedd amrywiol i rieni ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o raglenni ac ymyriaethau rydym yn cynnig i'r disgyblion. Mae gennym berthynas cryf gyda cholegau lleol, darpariaethau wedi'u cefnogi gan y gymuned yn ogystal â busnesau lleol.



## Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Mae ein darpariaeth yng Nghanolfan Addysg Y Bont yn defnyddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd statudol sy'n galluogi ein dysgwyr i weithio tuag at wireddu'r Pedwar Diben

Mae'r tri sgìl trawsgwricwlaidd, Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol wedi'u sefydlu ar draws ein tri Llwybr Dysgu gan alluogi pob unigolyn i gael mynediad at y ddarpariaeth briodol er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol.

Mae'n dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws ein llwybrau Dysgu i;

- Ddatblygu sgiliau cyfathrebu
- Defnyddio rhifau a datrys problemau o fewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.
- Defnyddio amrywiaeth o dechnolegau i'w helpu i gyfathrebu a gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.

# Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

| Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles | Ieithoedd, Llythrennedd, Cyfathrebu | Dyniaethau | Mathemateg a Rhifedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |  |
| Cerddoriaeth<br>Celf<br>Drama<br>Dawns | Addysg Gorfforol<br>Addysg Bersonol Cymdeithasol Iechyd ac Economaidd | Cymraeg/ Saesneg<br>Darllen<br>Ysgrifennu<br>Llafaredd | Daearyddiaeth<br>Hanes<br>Addysg Grefyddol | Rhif<br>Trin Data<br>Gofod, Siapiau a Mesur | Gwyddoniaeth<br>Dylunio a Technoleg<br>Technoleg Bwyd<br>Technoleg Gwybodaeth |

## Sgiliau Trawsgwrwicwlaidd

### Fframwaith Llythrennedd

- Llafaredd
- Darllen
- Ysgrifennu

### Fframwaith Rhifedd

- Datblygu Rhesymeg Rhifyddol
- Defnyddio Sgiliau Rhifau
- Defnyddio Sgiliau Mesur
- Defnyddio Sgiliau Data

### Fframwaith Cymhwyster Digidol

- Rhyngweithredu a chydweithio
- Dinasyddiaeth
- Cynhyrchu
- Data a Meddwl Cyfrifiadurol

## Themâu Trawsbynciol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Addysg Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | Amrywiaeth | Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Cyd-destun Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol |

# Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

PECS

Makaton

Attention Autism

Storïau Synhwyrol


TACPAC


SAFMEDS

Reading Eggs

Language for Thinking

Colourful Semantics




## Mathemateg a Rhifedd

Numicon

RMeasimaths

SAFMEDS

## Iechyd a Lles

Sensoy Circuit

Hydrotherapi


Sherbourne

Rebound Therapy

Swyddog Ymgysylltu'r Heddlu

ELSA

Body Massage







## Celfyddydau Mynegiannol

Therapi Cerddoriaeth

Dawns

Dance Massage

Sounds of Intent

Therapi Celf

Film a Ffotograffiaeth

## Dyniaethau


Garddwriaeth

Daearyddiaeth

Hanes

Addysg Grefyddol




## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Sensology

Eye Gaze

Dyfeisiau AAC

Proloquo2go

Purple Mash

Gwyddoniaeth

ASDAN
Registered Centre

purple
mash

A Speechmark Classroom Resource
Language for Thinking
A structured approach for young children
Stephen Parsons & Anna Branagan

Grid 3

TACPAC
Touch And Communication Pac

sounds of intent

RMeasimaths™

Reading eggs

Seesaw

numicon

PYRAMID EDUCATIONAL
PECS
CONSULTANTS

KUMON

SUZUKI MUSIC
LEARNING WITH LOVE

Agored Cymru
Creu cymwysterau, gwobrwyo cyrhaeddiad i Gy
Creating qualifications, rewarding achievemen

Elklan
aiming high with communication

Proloquo2Go®
App Store
by AssistiveWare®

Google Classroom

active
SUPPORT

who doing what where

# Galluogi Dysgwyr

Mae'r cwricwlwm hwn yn cysylltu ag egwyddorion datblygiad plant yn ogystal â'r Pedwar Diben. Mae'n darparu amrywiaeth o brofiadau o fewn amrywiaeth o gyd-destunau. Rydym yn defnyddio'r cwricwlwm ochr yn ochr â'n gwybodaeth a'n profiadau i fyfyrio ar ac ymateb i anghenion unigol y disgyblion sy'n dilyn y Llwybr Dysgu Anffurfiol. Mae cynllunio effeithiol yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau o amgylchedd ac adnoddau ein hysgol.

Mae pump llwybr datblygiadol sy'n chwarae rôl bwysig yn nysgu a datblygiad ein disgyblion. Mae'r llwybrau hyn wedi cael eu datblygu i sicrhau bod disgyblion ar y llwybr Anffurfiol yn cael eu cefnogi i wneud cynnydd ar eu cyflymder eu hunain.

- Perthyn
- Cyfathrebu
- Archwilio
- Datblygiad Corfforol
- Llesiant






## Arsylwadau

Mae arsylwi yn chwarae rôl allweddol yng Nghanolfan Addysg Y Bont. Mae'n helpu i ddysgu am yr hyn sy'n rhoi cymhelliant, sydd o ddiddordeb, ac yn diddanu ein dysgwyr. Rydym yn defnyddio'r arsylwadau hyn i gefnogi ein cynllunio. Rydym yn arsylwi ar ddisgyblion yn ddyddiol, y tu mewn yn ogystal â'r tu allan. Rydym yn ystyried pryd a sut i ryngweithio orau â'n dysgwyr yn ystod eu dysgu. Mae'n harsylwadau yn ein galluogi i adnabod y camau nesaf ar gyfer ein dysgwyr.

## Asesu Disgyblion

Mae asesu yn help i ni ddysgu beth mae'n dysgwyr yn gallu gwneud, mae'n galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd ar gyflymder priodol gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio. Mae'n rhoi gwybod i'n staff am ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chorfforol y dysgwyr ar draws y pump llwybr datblygiadol. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu stratagaethau sy'n rhoi cymhelliant i'r dysgwyr. Rydym yn deall bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol.



## Asesu a Chynnydd

Mae asesu ffurfiannol yn cael ei ddefnyddio yng Nghanolfan Addysg y Bont i gynorthwyo athrawon â'u timau dosbarth i adnabod effeithiolrwydd eu haddysgu a dysgu sy'n sicrhau cynnydd disgyblion. Mae profiadau ystyrlon, perthnasol a heriol yn cael eu darparu yn unol â chanlyniadau cynlluniau datblygu unigol y disgyblion (CDU). Mae athrawon yn gosod targedau fesul tymor, dyma eu bwriadau dysgu personol (BDP). Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i sicrhau bod y BDP yn derbyn sylw'n ddyddiol. Mae pob tîm dosbarth yn cofnodi cynnydd disgyblion trwy amrywiaeth o ddulliau, mae'r cynnydd hwn yn amrywio yn ôl y llwybr dysgu unigol mae disgyblion yn eu dilyn.

Mae sesiynau cymedroli mewnol ac allanol yn cael eu dilysu ac yn sicrhau ansawdd o'r safon uchaf. Mae asesu crynodol yn cael ei gofnodi trwy asesiadau ysgol gyfan ac achrediadau yng Nghyfnod allweddol 4/5. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn moitro'n gyson i adolygu effaith ac effeithiolrwydd y systemau hyn i sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei arddangos yn yf ffordd orau posib.

Yng Nghanolfan Addysg y Bont credwn nad yw un asesiad yn addas i bawb. Defnyddiwn amrywiaeth o asesiadau ar gyfer ein dysgwyr, gan sicrhau bod pob cynnydd yn cael ei gofnodi a'i ystyried. Mae ein gweithdrefnau sy'n cefnogi ein prosesau asesu yn cynnwys; Teithiau Dysgu, Cylchoedd Monitro, dulliau asesu ar gyfer dysgu o fewn yr ystafell ddosbarth, cyfarfodydd cynnydd disgyblion a gwrando ar ddysgwyr.

| Systemau Asesu yng Nghanolfan Addysg y Bont | | |
|---|---|---|
| **Llwybrau Anffurfiol** | **Lled-Ffurfiol** | **Ffurfiol** |
| Ar Drywydd Dysgu<br>Proffil Cam Sylfaen<br>Bwriadau Dysgu Personol (Targedau fesul Tymor)<br>Achrediadau<br>MAPP(SIP 22/23)<br>Engagement Profile and Scale (CGY 22/23) | Proffil Cam Sylfaen<br>Assessment of Basic Language and Learning Skills (ABLLS)<br>Bsquared<br>Asesiadau Diagnostig<br>Achrediadau<br>MAPP (SIP 22/23)<br>Engagement Profile and Scale (CGY 22/23) | Bsquared<br>Achreduiadau/ Cymwysterau<br>Asesiadau Diagnostig |

# Trosglwyddo




Mae disgyblion yn dod i mewn i Ganolfan Addysg Y Bont ar oedran derbyn, yn bennaf o'r uned asesu ABC cyn-oed ysgol. Mae disgyblion yn cychwyn eu taith addysgol yn dilyn Panel Cymedroli Blynyddoedd Cynnar.

**Uwchradd -** Mae rhai disgyblion yn trosglwyddo o ysgolion Uwchradd priflif i Ganolfan Addysg y Bont.

**Oedolion yn Trosglwyddo—**Bydd myfyrwyr sy'n bresennol yn yr ysgol yn 18 oed yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion ond yn parhau yn yr ysgol ysgol hyd nes eu bod yn 19 oed (Blwyddyn 14).

**Cynradd** - Mae rhai disgyblion yn trosglwyddo o ysgolion Cynradd priflif, yn bennaf o Flwyddyn 6 i mewn i Flwyddyn 7.



Os a phan fydd yr amser yn gywir, mae disgyblion o Ganolfan Addysg y Bont yn gallu trosglwyddo i leoliadau priflif. Mae barn, dymuniadau a theimladau rhieni, disgyblion a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hystyried yn ystod y broses yma. Mae trafodaethau/cynllunio ynghylch trosglwyddo yn aml yn ystod adolygiad blynyddol CDU disgybl. Mae cyfleoedd ar gael, lle'n briodol, yn y Adran Cynradd yn ogystal ag Uwchradd

**Trosglwyddiad Ymadawyr Ysgol:**

Bydd rhai myfyrwyr yn trosglwyddo i ddarpariaeth ôl-16 ym Mlwyddyn 12, fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn parhau yn yr ysgol hyd Blwyddyn 14. Mae bron pob dysgwr yn y Adran uwchradd yn mynychu cyrsiau colegau, mewn paratoad ar gyfer pan fyddant yn ymadael a'r ysgol.

